THEATR CYMRU

# WESWES!

03 – 06.08.26

Caffi Maes B

## Ffrindiau, crwts a rhocesi y fro, dewch at eich gilydd yng Nghaffi Maes B am awr wyllt o ddireidi a dramâu digri...

## Join us at Caffi Maes B for a riotous hour of short comedy plays...

### Pwyllgor Pobol y Preselau

gan / by **Llinos Mai**

Mewn lleoliad hollol gyfrinachol (ystafell gefn y garej leol), mae pwyllgor cudd Pobl y Preselau yn ymgynnull i drafod rhywbeth difrifol iawn. Mae Sir Benfro wedi cwympo i rif 8 yn y rhestr "The Top 10 Places to Visit in the UK" ac mae'n rhaid i'r P.P.P. weithredu ar frys os am achub enw da'r ardal....

In an undisclosed location (the back room of the local garage), the secret committee Pwyllgor Pobol y Preselau has called an emergency meeting to discuss something very serious. Pembrokeshire has dropped to number 8 in the "The Top 10 Places to Visit in the UK" list and the P.P.P. need to act urgently to save the area's reputation...

### Wedi Swyno

gan / by **Carwyn Blayney**

Plymiwch i'r gorffennol, i gyfnod y chwedlau, i gyfnod lle mae'n hynod gyffredin i gwympo mewn i gylch y Tylwyth Teg a diflannu'n llwyr... Ond pan mae Dafydd yn ceisio dychwelyd adre at ei fam, mae'n sylweddoli nad yw'n hawdd dianc rhag y byd hudolus hwn.

Dive into the past, into the time of legends, into a time where it's extremely common to fall into a fairy ring and disappear completely... But when Dafydd tries to return home to his mam, he realises that it's not easy to escape this magical world.

## Cymorth Cyntaf

gan / by **Leo Drayton**

Draw â ni i ganolfan gymunedol leol lle mae criw bach yn mynychu cwrs cymorth cyntaf. Ond yng nghanol lapio bandeisiau a drysu CPR a CPJ, mae sgiliau'r cyfranogwyr yn cael eu profi yn gynt na'r disgwyl ar ôl i'r hyfforddwr gwympo'n sâl.

Over to a local community centre, where a small group of participants is attending a first aid course. But between wrapping bandages and confusing CPR with CPJ, their newly learned skills are put to the test sooner than expected when the instructor suddenly falls ill.

## Morlo Mwnt

gan / by **Geraint Lewis**

Does unman yn well na thraeth Mwnt ym marn Dewi a Meinir. Pan mae'r cwpwl yn sylwi ar forlo yng nghanol y traeth, mae'n rhaid iddyn nhw geisio rhoi stop ar y fisitors dwl sy'n cerdded yn syth tuag ato... ond efallai nad yw popeth fel y mae'n ymddangos ar yr olwg gyntaf.

There's nowhere better than Mwnt beach in Dewi and Meinir's opinion. When the couple notice a seal in the middle of the beach, they must try to stop the oblivious visitors who are walking straight towards it... but everything may not be as it seems.

## Annwfn

gan / by **Grug Muse**

Croeso i'r *Annwfn*, gofod rhwng y nefoedd ac uffern. Ond s'dim giatiau perlog i'w gweld yn unman... Anwen a'i siop trin gwallt sy'n croesawu'r newydd-ddyfodiaid i fywyd tragwyddol a gwneud yn siŵr fod eu gwalltiau nhw'n dwt ar yr un pryd.

Welcome to *Annwfn*, a space between heaven and hell. But there are no pearly gates in sight... it's Anwen and her hairdressing salon that welcome newcomers to eternal life and make sure their hair looks good too.

# Croeso i Wes Wes!

## Gair o Groeso gan Steffan Donnelly

Dwi'n falch iawn ein bod yn dychwelyd â'n cynllun sgriptio newydd i'r Eisteddfod Genedlaethol eto eleni, gyda'n Cyfarwyddwr Cyswllt Rhian Blythe wrth y llyw. Dyma gyfle arbennig i rannu gwaith crefftus ein dramodwyr, cafodd eu dewis drwy alwad agored, gyda chi. Mae cast a thîm creadigol hollol wych am ddod â'r straeon i gyd yn fyw ar lwyfan Caffi Maes B eleni mewn dathliad o sgwennu newydd.

Ers lansio'r gyfres yma o sioeau gyda *Rwan/Nawr* yn 2023, mae'r perfformiadau cyffrous yma yng Nghaffi Maes B yn un o'n huchafbwyntiau blynyddol fel cwmni ac mae'r ymateb gan y gynulleidfa wastad yn anhygoel.

Dwi wedi mwynhau – a chwerthin yn uchel – wrth ddarllen sgriptiau'r dramodwyr talentog sy'n rhan o *Wes Wes!* eleni a methu aros i rannu'r wledd o hiwmor a direidi gydag Eisteddfotwyr y Garreg Las.

Mwynhewch!

I'm delighted that our new writing scheme is returning to the National Eisteddfod again this year, with our Associate Director Rhian Blythe at the helm. This is a special opportunity to share the amazing work of our playwrights, who were chosen through an open call, with you. We have a fantastic cast and creative team who will bring all the stories to life on stage at Caffi Maes B this year in a celebration of new writing.

Since launching this series of plays with *Rwan/Nawr* in 2023, these exciting performances at Caffi Maes B have become one of our annual highlights as a company and the response from the audience is always incredible.

I've enjoyed – and laughed out loud – reading the scripts of the talented playwrights who are part of *Wes Wes!* this year and I can't wait to share this show full of humour and mischief with everyone at Eisteddfod y Garreg Las.

Enjoy!

# Cast

**Cadi Beaufort**
**Noel Loreto Davies**
**Rhodri Evan**
**Gwenllian Higginson**

# Dramodwyr / Playwrights

**Llinos Mai**
**Carwyn Blayney**
**Leo Drayton**
**Geraint Lewis**
**Grug Muse**

# Tîm Creadigol a Chynhyrchu
# Creative and Production Team

Cyfarwyddwr / Director
**Rhian Blythe**

Cyfansoddwr a Chyfarwyddwr Cerdd / Composer and Music Director
**Màth Roberts**

Dylunydd Set a Gwisgoedd / Set and Costume Designer
**Lois Prys**

Cyfarwyddwr Symud / Movement Director
**Jess Williams**

Cyfarwyddwr Cynorthwyol / Assistant Director
**Kira Bissex**

Rheolwr Llwyfan / Stage Manager
**Chloe Danielle Robson**

Rheolwr Llwyfan Cynorthwyol / Assistant Stage Manager
**Lleucu Williams**

Peiriannydd Sain / Sound Technician
**Josh Bowles**

# Staff Theatr Cymru

## Tîm Rheoli / Management Team

**Steffan Donnelly**
Cyfarwyddwr Artistig a Chyd-Brif Weithredwr
Artistic Director and Joint Chief Executive

**Angharad Jones Leefe**
Cyfarwyddwr Gweithredol a Chyd-Brif Weithredwr
Executive Director and Joint Chief Executive

**Rhian Davies**
Cyfarwyddwr Cynhyrchu / Director of Producing

## Cyfranogi / Participation

**Sian Elin James**
Cydlynydd Cyfranogi / Participation Co-ordinator

**Gwawr Pritchard**
Cydlynydd Cyfranogi (Cyfnod Mamolaeth)
Participation Co-ordinator (Maternity Cover)

## Cyllid a Gweinyddiaeth / Finance and Administration

**Nerys Evans**
Swyddog Gweithrediadau / Operations Officer

**Lisa Ronan**
Swyddog Cyllid / Finance Officer

## Cynhyrchu / Production

**Gareth Wyn Roberts**
Pennaeth Cynhyrchu / Head of Production

**Caryl McQuilling-Edwards**
Rheolwr Cynhyrchu Cwmni / Company Production Manager

### Cynhyrchwyr / Producers

**Fflur Thomas**
**Gavin Richards**

### Datblygu Creadigol / Creative Development

**Rhian Blythe**
Cyfarwyddwr Cyswllt / Associate Director

### Marchnata a Chyfathrebu / Marketing and Communications

**Ceri Williams**
Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu
Head of Marketing and Communications

**Elen Jones**
Swyddog Marchnata a Chyfathrebu
Marketing and Communications Officer

### Bwrdd yr Ymddiriedolwyr / Board of Trustees

**Yr Athro Jerry Hunter** Cadeirydd / Chair
**Dr Nia Edwards-Behi**
**Siôn Fôn**
**Elin Parisa Fouladi**
**Ffion Glyn**
**Gwyn Jones**
**Fiona Phillips**
**Rhys Miles Thomas**
**Lois Llywelyn Williams**
**Ann Pari Williams**
**Eldeg Rosser**
**Meurig Jones**

# Bywgraffiadau

# Biographies



## Cadi Beaufort

### Actor

Yn wreiddiol o Ffair-Rhos ac wedi graddio gyda BA ac MA Perfformio o Brifysgol y Drindod Dewi Sant, mae Cadi bellach wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd. Ar ôl graddio mae hi wedi gweithio i gwmnïau Arad Goch, Boom Plant, Mewn Cymeriad ac yn edrych 'mlaen i weithio ar gynhyrchiad Theatr Cymru o *Wes Wes!*. Mae'n gweithio fel cyflwynydd plant i raglen *Stwnsh Sadwrn* yn wythnosol ac wedi ymddangos ar raglenni *Chwarter Call, Pigo Dy Drwyn* a *Mabinogiogi*.

Originally from Ffair-Rhos and having graduated with a Performing BA and MA from University of Wales Trinity Saint David, Cadi has now settled in Cardiff. Since graduating she's worked with Arad Goch, Boom Plant, Mewn Cymeriad and is looking forward to working on Theatr Cymru's production of *Wes Wes!*. Cadi works as a children's presenter on the weekly programme, *Stwnsh Sadwrn* and has appeared on *Chwarter Call, Pigo dy drwyn* and *Mabinogiogi*.



# Noel Loreto Davies

## Actor

Yn wreiddiol o Sir Fôn, dechreuodd Noel ei yrfa actio yn 2021 yn chwarae cymeriad Cai Harris ar yr opera sebon boblogaidd *Rownd a Rownd* (S4C), ac wedi parhau i fod ar sgrin ers hynny. Yn ogystal â hyn, mae ei waith diweddar yn cynnwys *Wrecslam!* (Theatr Cymru + Theatr Clwyd), *Y Streic Fawr, Itopia, Dreigiau Cadi, Mojo Swoptops*, a *Copsan* (S4C). Mae Noel  hefyd ar hyn o bryd yn un o'r saith artist ifanc sy'n rhan o raglen Artistiaid Cyswllt Ifanc Frân Wen. Mae Noel yn berfformiwr dwyieithog, gyda threftadaeth gymysg Gymreig-Ffilipinaidd, ac mae'n angerddol am ddatblygu ei grefft a chreu gwaith newydd a chyffrous.

Originally from Anglesey, Noel began his acting career in 2021 playing the character of Cai Harris on the popular soap opera *Rownd a Rownd* (S4C) and has continued on screen since then. His other recent work includes *Wrecslam!* (Theatr Cymru + Theatr Clwyd), *Y Streic Fawr, Itopia, Dreigiau Cadi, Mojo Swoptops*, and *Copsan* (S4C). He is also currently one of the seven young artists who are part of Frân Wen's Young Associates Artists programme. Noel is a bilingual performer, with mixed Welsh-Filipino heritage, and is passionate about developing his craft, and creating new and exciting work.



# Rhodri Evan

## Actor

Daw Rhodri o Grymych yng ngogledd Sir Benfro. Mae wedi gweithio'n helaeth fel actor ym meysydd theatr, radio a theledu. Bu'n teithio ar hyd a lled y wlad gydag amryw o gwmnïau theatr i blant a phobl ifanc (Theatr Clwyd, Frân Wen, Theatr Spectacle a Theatr na n'Óg). Mae wedi teithio'n eang gyda Theatr Cymru, Dalier Sylw, Theatr Gwynedd, Fallen Angel Theatre Co., Theatr Clwyd a Theatr Bara Caws.

Mae ei waith teledu yn cynnwys *Cowbois ac Injans, Scrum IV, Pen Talar, Gwaith Cartref, Y Gwyll, 35 Diwrnod, Rownd a Rownd, The Pembrokeshire Murders, Hyd y Pwrs, Craith, Pren Ar Y Bryn, Ar y Ffin*, y ffilm *Y Sŵn*, a'r ffilm fer *A Pack of Five*.

Rhodri is originally from Crymych in north Pembrokeshire. He has worked extensively as an actor in theatre, radio and television. He's travelled all over the country with various theatre companies for children and young people (Theatr Clwyd, Frân Wen, Theatr Spectacle and Theatr na n'Óg). He has toured widely with Theatr Cymru, Dalier Sylw, Theatr Gwynedd, Fallen Angel Theatre Co., Theatr Clwyd and Theatr Bara Caws.

His television work includes *Cowboys and Engines, Scrum IV, Pen Talar, Gwaith Cartref, Y Gwyll, 35 Diwrnod, Rownd a Rownd, The Pembrokeshire Murders, Hyd y Pwrs, Craith, Pren Ar Y Bryn, Ar y Ffin*, the film – *Y Sŵn*, and the short film – *A Pack of Five*.



# Gwenllian Higginson

## Actor

Daw Gwenllian yn wreiddiol o Lanwinio yng ngorllewin Sir Gâr, ac fe'i hyfforddwyd yng Ngholeg Rose Bruford.

Mae ei gwaith theatr diweddar yn cynnwys: *Llanast!* (Theatr Bara Caws), *Constellations/Cytserau* (Theatr Clwyd), *Sleeping Beauty* (Torch Theatre), *Gwlad yr Asyn, Merched Caerdydd, Macbeth, Dyled Eileen* (Theatr Cymru), *West* (Bale and Thomas, Hollywood Fringe), *A Christmas Carol* (Sherman Theatre), *Shooting Rabbits* (Powder House/ Sherman Theatre), *Miss Julie* (RCT Theatres) *Exodus* (Motherlode Theatre, Finborough Theatre), *The Good Earth* (Motherlode Theatre, Flea Theatre, Efrog Newydd), *Blink* (Critical Ambition/The Other Room/Volcano), *Constellation Street* (The Other Room).

Teledu diweddar yn cynnwys: *Creisis, Hei Hanes, Amser Maith yn Ôl, Bex, 35 Diwrnod, Enid a Lucy, Pobol y Cwm* (S4C) a *Casualty* (BBC).

Gwenllian is originally from Llanwinio in west Carmarthenshire and trained at Rose Bruford College.

Her recent theatre work includes: *Llanast!* (Theatr Bara Caws), *Constellations/Cytserau* (Theatr Clwyd), *Sleeping Beauty* (Torch Theatre), *Gwlad yr Asyn, Merched Caerdydd, Macbeth, Dyled Eileen* (Theatr Cymru), *West* (Bale and Thomas, Hollywood Fringe), *A Christmas Carol* (Sherman Theatre), *Shooting Rabbits* (Powder House/ Sherman Theatre), *Miss Julie* (RCT Theatres), *Exodus* (Motherlode Theatre, Finborough Theatre), *The Good Earth* (Motherlode Theatre, Flea Theatre, Efrog Newydd), *Blink* (Critical Ambition/The Other Room/Volcano), *Constellation Street* (The Other Room).

Recent TV work includes: *Creisis, Hei Hanes, Amser Maith yn Ôl, Bex, 35 Diwrnod, Enid a Lucy, Pobol y Cwm* (S4C) and *Casualty* (BBC).

# Tîm Creadigol

# Creative Team



## Rhian Blythe

### Cyfarwyddwr / Director

Rhian yw Cyfarwyddwr Cyswllt Theatr Cymru.

Mae ei gwaith diweddar fel cyfarwyddwr ar ran Theatr Cymru yn cynnwys *Wrecslam!*, *Byth Bythoedd Amen*, *Ha/Ha*, *Swyn*, *Rwan/Nawr* ac *Enfys*. Y llynedd, bu'n Gyfarwyddwr Cyswllt ar *Romeo a Juliet* (taith Cymru a Shakespeare's Globe) ac mae hefyd wedi cyfarwyddo *Croendena* (Frân Wen), a *Helo?!* a *Noson yn y Glwys* (Academi Llais a Chelfyddydau Dramatig Cymru).

Rhian sy'n cyfarwyddo'r sioe gerdd newydd *Calon* gan Gwmni Theatr yr Urdd a Theatr Cymru. Bydd y cynhyrchiad yn cael ei berfformio yng Nghanolfan Mileniwm Cymru fis Awst.

Rhian is Theatr Cymru's Associate Director.

Her recent work as a director on behalf of Theatr Cymru includes *Wrecslam!*, *Byth Bythoedd Amen*, *Ha/Ha*, *Swyn*, *Rwan/Nawr* and *Enfys*. Last year, she was an Associate Director on *Romeo a Juliet* (Wales tour and Shakespeare's Globe) and has also directed *Croendena* (Frân Wen), and *Helo?!* and *Noson yn y Glwys* (Wales Academy of Voice and Dramatic Arts).

Rhian is directing the new musical *Calon* by Theatr yr Urdd and Theatr Cymru. The production will be performed at Wales Millennium Centre in August.



# Lois Prys

## Dylunydd Set a Gwisgoedd
## Set and Costume Designer

Gyda dros 20 mlynedd o brofiad ym maes dylunio set ar gyfer theatr a theledu, arddangosfeydd, digwyddiadau a dylunio mewnol diwylliannol, mae Lois Prys wedi meithrin enw da am greu gofodau sy'n drawiadol yn weledol ac wedi'u seilio ar bwrpas clir. Mae'n gwerthfawrogi cydweithio creadigol ac yn cyfrannu syniadau gwreiddiol a dychmygus drwy gydol y broses ddylunio, ac mae'n adnabyddus am ei phroffesiynoldeb a'i gallu i greu dyluniadau sy'n ysbrydoli ac yn swyno. Ynghyd â'i gwaith dylunio, mae hi'n aelod o Fwrdd Rheoli Galeri Caernarfon.

With over 20 years of experience in set design for theatre and television, exhibitions, events and cultural interior design, Lois Prys has built a reputation for creating spaces that are visually impressive and based on a clear purpose. She values creative collaboration and contributes original and imaginative ideas throughout the design process and is known for her professionalism and ability to create designs that inspire and delight. Along with her design work, she is a member of Galeri Caernarfon's Management Board.



# Màth Roberts

## Cyfansoddwr a Chyfarwyddwr Cerdd / Composer and Music Director

Mae Màth yn gyfansoddwr, trefnydd a chyfarwyddwr cerdd sy'n hanu o Gaernarfon.

Theatr fel Cyfarwyddwr Cerdd: *The BFG* (RSC/Chichester Festival Theatre); *Private Jones* (Southwark Playhouse, HUGO SIX); *Pinocchio* [Gweithdy (Shakespeare's Globe); *Make Good: The Post Office Scandal* (Pentabus); *Like a Rat* (TO Productions, CPT); *The Enormous Crocodile* (Regent's Park Open Air Theatre/Leeds Playhouse); *O.G. Prince of Wales* [Gweithdy] (Theatr Sherman); *Berlusconi: A New Musical* (Southwark Playhouse); *The Light in the Piazza* (Alexandra Palace); *Inside William* [Gweithdy] (Best Play).

Fel Cyfansoddwr: *Four Felons and a Funeral* (Birmingham Hippodrome/ North Wall Arts Centre); *Merched y Waw* (Cabarela); *Twelfth Night* (Göteborgs Stadsteater) *Ble Mae Trenau'n Mynd Gyda'r Nos a Chwestiynau Mawr Eraill Bywyd*

Màth is a composer, music arranger and music director from Caernarfon.

Theatre work as Musical Director: *The BFG* (RSC/Chichester Festival Theatre); *Private Jones* (Southwark Playhouse, HUGO SIX); *Pinocchio* [Workshop] (Shakespeare's Globe); *Make Good: The Post Office Scandal* (Pentabus); *Like a Rat* (TO Productions, CPT); *The Enormous Crocodile* (Regent's Park Open Air Theatre/Leeds Playhouse); *O.G. Prince of Wales* [Workshop] (Sherman Theatre); *Berlusconi: A New Musical* (Southwark Playhouse); *The Light in the Piazza* (Alexandra Palace); *Inside William* [Workshop] (Best Play).
*As a Composer: Four Felons and a Funeral* (Birmingham Hippodrome/ North Wall Arts Centre); *Merched y Waw* (Cabarela); *Twelfth Night* (Göteborgs Stadsteater) *Ble Mae Trenau'n Mynd Gyda'r Nos a Chwestiynau Mawr Eraill Bywyd Life* (Theatr Ieuenctid yr Urdd);

(Theatr Ieuenctid yr Urdd); *Bare Roots* [Film fer] (Fieldwork Productions); *Orlando* (GSMD); *What Comes After* (BT Studios). Màth yw Cyfarwyddwr Cerdd, Trefnydd a Threfnydd Cerddorfaol y sioe gerdd *Calon* gan Caryl Parry Jones a Non Parry, a fydd yn cael ei pherfformio yng Nghanolfan y Mileniwm ym mis Awst fel sioe newydd Theatr Ieuenctid yr Urdd.

Mae Màth hefyd yn gyfansoddwr a threfnydd cyhoeddedig, ac fe gafodd ei gomisiwn newydd, *Llechi*, ei pherfformio yn yr Ŵyl Delynau Ryngwladol yn 2023.

Mae Màth yn hynod o gyffrous i ymuno â thîm *Wes Wes!*

*Bare Roots* [Short film (Fieldwork Productions); *Orlando* (GSMD); *What Comes After* (BT Studios). Màth is the Musical Director, Arranger and Orchestral Arranger for the musical show *Calon* by Caryl Parry Jones and Non Parry, which will be performed at the Millennium Centre in August as a new show for Theatr Ieuenctid yr Urdd.

Màth is also a published composer and arranger, and his new commission, *Llechi*, was performed at the International Harp Festival in 2023.

Màth is extremely excited to join the *Wes Wes!* team.



## Jess Williams

### Cyfarwyddwr Symud
### Movement Director

Hyfforddwyd Jess Williams yn London Contemporary Dance School a Chanolfan Laban.

Jess Williams was trained at the London Contemporary Dance School and the Laban Centre.

Mae ei gwaith theatr yn cynnwys:

Fel Cyfarwyddwr Symud neu Goreograffydd: *Nye* (National Theatre), *Hamlet Hail to the Thief* (RSC, Factory International), *Our Town* (Welsh National Theatre), *Richard III* (The Globe), *Lost and Found* (Factory International, Aviva Studios), *The Boy with Two Hearts* (Wales Millennium Centre/ National Theatre), *Poor* (Gate Theatre, Dublin), *Please Please Me* (Kiln), *Atlantis, Snake in the Grass, Rope, Cinderella, Mother Goose, Celebrated Virgins* (Theatr Clwyd), *Hair* (Konzert und Theater St. Gallen), *Around the World in 80 Days* (Theatre by the Lake), *Byth Bythoedd Amen*, *Merched Caerdydd* (Theatr Cymru), *A Little Piece of You* (Theatre Royal Drury Lane), *Blood Harmony, Petrichor* (ThickSkin), *A Walk is Not Just a Walk* (Lyric Theatre Belfast), *Constellations* (National Centre for Performing Arts Mumbai).

Fel Cyfarwyddwr Cyswllt neu Gyfarwyddwr Cyswllt Symud: I *Think We Are Alone, The Unreturning, The Curious Incident of the Dog in the Night-Time* (Frantic Assembly), *The Ocean at the End of the Lane, Beginning* (National Theatre), *Dracula: Mina's Reckoning* (National Theatre of Scotland).

Theatre includes:

As Movement Director or Choerographer: *Nye* (National Theatre), *Hamlet Hail to the Thief* (RSC, Factory International), *Our Town* (Welsh National Theatre), *Richard III* (The Globe), *Lost and Found* (Factory International, Aviva Studios), *The Boy with Two Hearts* (The Wales Millennium Centre/ National Theatre), *Poor* (Gate Theatre, Dublin), *Please Please Me* (Kiln), A*tlantis, Snake in the Grass, Rope, Cinderella, Mother Goose, Celebrated Virgins* (Theatr Clwyd), *Hair* (Konzert und Theater St. Gallen), *Around the World in 80 Days* (Theatre by the Lake), *Byth Bythoedd Amen, Merched Caerdydd* (Theatr Cymru), *A Little Piece of You* (Theatre Royal Drury Lane), *Blood Harmony, Petrichor* (ThickSkin), *A Walk is Not Just a Walk* (Lyric Theatre Belfast), *Constellations* (National Centre for Performing Arts Mumbai).

As Associate Director or Associate Movement Director: *I Think We Are Alone, The Unreturning, The Curious Incident of the Dog in the Night-Time* (Frantic Assembly), *The Ocean at the End of the Lane, Beginning* (National Theatre), *Dracula: Mina's Reckoning* (National Theatre of Scotland).

# Dramodwyr

# Playwrights



## Llinos Mai

### Dramodydd / Playwright

Mae Llinos Mai yn awdur comedi, cyfansoddwr caneuon a pherfformiwr arobryn. Mae hi'n wreiddiol o Sir Benfro ond erbyn hyn yn byw yng Nghaerdydd.

Ysgrifennodd a pherfformiodd yn sioeau *The Harri-Parris*, sef sioeau comedi a ysbrydolwyd gan ei theulu ffermio hi yng Ngorllewin Cymru. Teithiodd y sioeau ledled y wlad ac i Ŵyl Caeredin cyn dod yn sitcom radio boblogaidd ar BBC Radio Wales.

Mae Llinos wedi ysgrifennu ar gyfer *Cara Fi, Cacamwnci, Anni Bendod, Dechrau Canu Dechrau Cwyno, a Noson Gomedi: Dathlu 40*, i gyd ar gyfer S4C. Mae ei gwaith theatr yn cynnwys *Meiddio Meddwl* ar gyfer Theatr Iolo/Eisteddfod Genedlaethol Cymru, y sioe gerdd gomedi *Anthem* i Ganolfan Mileniwm Cymru a chyfieithodd *Tidy/Taclus* ar gyfer Theatr Iolo.

Llinos Mai is an award-winning comedy writer, songwriter and performer. She is originally from Pembrokeshire but now lives in Cardiff.

She wrote and performed in *The Harri-Parris* comedy shows inspired by her farming family in West Wales. The comedy shows travelled across the country and to the Edinburgh Festival before becoming a popular radio sitcom on BBC Radio Wales.

Llinos has written for *Cara Fi, Cacamunci, Anni Bendod, Dechrau Canu Dechrau Cwyno,*and *Noson Komedi: Dathlu 40*, all for S4C. Her theatre work includes *Meiddio Meddwl* for Theatr Iolo/Eisteddfod Genedlaethol Cymru, the comedy musical *Anthem* for the Wales Millennium Centre and she translated *Tidy/Taclus* for Theatr Iolo.

Mae hi wedi perfformio yn *Elis James: Nabod y Teip* (S4C), *Beena and Amrit* (BBC Cymru), a gellir ei gweld yn rheolaidd ar S4C yn chwarae rhan Jen yn *Jen a Jim*.

Mae Llinos yn ysgrifennu ac yn cyflwyno *Hanes Mawr Cymru*, podlediad hanes i blant ar BBC Sounds, a enillodd 'Wobr Podlediad Prydeinig' efydd ac aur yn 2024.

Mae hi wrth ei bodd yn gweithio gyda Theatr Cymru, yn enwedig ar sioe fydd yn cael ei pherfformio yn Sir Benfro.

She has performed in *Elis James: Nabod y Teip* (S4C), *Beena and Amrit* (BBC Cymru), and can be seen regularly on S4C playing the role of Jen in *Jen a Jim*.

Llinos writes and presents *Hanes Mawr Cymru*, a children's history podcast on BBC Sounds, which won a bronze and gold 'British Podcast Award' in 2024.

She loves working with Theatr Cymru, especially on a show that will be performed in Pembrokeshire.

---



## Carwyn Blayney

### Dramodydd / Playwright

Yn wreiddiol o Geredigion, mae Carwyn Blayney yn gomedïwr sydd wedi ymddangos ar BBC Three, Radio Four, Radio Wales ac S4C. Mae e wedi ysgrifennu ar gyfer BBC Radio Four, Wales a Scotland, yn ogystal â pheilot sitcom ar gyfer S4C (i'w rhyddhau haf 2026), a'r ddrama gomedi *Wisgi* gyda Chwmni Theatr Bara Caws, 2025.

Originally from Ceredigion, Carwyn Blayney is a comedian who has appeared on BBC Three, Radio Four, Radio Wales and S4C. He has written on various comedy programs for BBC Radio Four, Wales and Scotland, as well as a sitcom pilot on S4C (to be released summer 2026), and the comedy drama *Wisgi* with Cwmni Theatr Bara Caws, 2025.



# Leo Drayton

## Dramodydd / Playwright

Mae Leo Drayton (fe/fo) yn awdur cwiar o Gaerdydd sydd yn ysgrifennu yn bennaf am ei hunaniaeth a'i brofiad fel dyn traws. Dechreuodd ei waith theatr trwy gydweithio efo Elgan Rhys ar *Dy Enw Marw* (2024), a berfformiwyd yn y Theatr Genedlaethol yn Llundain gan Ysgol Gyfun Gŵyr, gan greu hanes fel y ddrama Gymraeg gyntaf i gael ei llwyfannu yno. Mae Leo wedi ysgrifennu nifer o ffilmiau byrion gan gynnwys y ffilm comedi cwiar arobryn *Teth* (2024) a gyrhaeddodd ddetholiad BFI Flare, y ffilm iaith Gymraeg gyntaf i gael ei ddangos yn yr ŵyl yn ogystal â nifer o wyliau ffilm ar draws y byd. Llynedd, ysgrifennodd ei ddrama lwyfan gyntaf, *Dynolwaith*, gyda Chwmni Theatr Frân Wen ag agorodd yn Theatr y Sherman cyn teithio ledled Cymru a gafodd ei chynnwys yn rhestr The Stage o'r 50 drama gorau yn y Deyrnas Unedig yn 2025.

Leo Drayton (he/he) is a queer writer from Cardiff who mainly writes about his identity and experience as a trans man. He began his theatre work by collaborating with Elgan Rhys on *Dy Enw Marw* (2024), which was performed at the National Theatre in London by Ysgol Gyfun Gŵyr, creating history as the first Welsh drama to be staged there. Leo has written a number of short films including the award-winning comedy film *Teth* (2024) which reached the BFI Flare selection, the first Welsh language film to be shown at the festival as well as a number of film festivals around the world. Last year, he wrote his first stage play, *Dynolwaith*, with Frân Wen which opened at The Sherman Theatre before touring throughout Wales. The play was included in The Stage's list of the 50 best plays in the UK in 2025.



# Geraint Lewis

## Dramodydd / Playwright

Mae Geraint Lewis yn hanu o Dregaron, Ceredigion. Cyhoeddodd pum nofel a thair cyfrol o straeon byrion a bydd ei nofel ddiweddaraf yn cael ei chyhoeddi yng ngwanwyn 2027 gan Wasg Carreg Gwalch. Ef oedd enillydd cyntaf Gwobr Goffa Tony Bianchi yn 2019 a daeth ei nofel, *Lloerig*, yn ail am y Fedal Ryddiaith yn 2021. Bu Geraint yn ysgrifennu'n helaeth i radio a theledu a chafodd ei gomedi byr, *Byd Donna Tan y Pandy*, ei pherfformio yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf 2024 ym Mhontypridd gan Theatr Cymru yn y cynhyrchiad *Ha/Ha!*. Bydd ei ddrama newydd, *Islwyn*, am y llenor Islwyn Ffowc Elis yn teithio Cymru ym mis Medi mewn cynhyrchiad gan gwmni Mewn Cymeriad. Mae'n byw yn Aberaeron gyda'i wraig Siân.

Geraint Lewis comes from Tregaron, Ceredigion. He published five novels and three volumes of short stories, and his latest novel will be published in Spring 2027 by Gwasg Carreg Gwalch. He was the first winner of the Tony Bianchi Memorial Award in 2019, and his novel *Lloerig* came second for Y Fedal Rhyddiaith in 2021. Geraint wrote extensively for radio and television and his short comedy, *Byd Donna Tan y Pandy*, was performed by Theatr Cymru at the 2024 Rhondda Cynon Taf National Eisteddfod, Pontypridd in their *Ha/Ha!* production. His new play, *Islwyn*, about the writer Iswyn Ffowc Elis, will be touring Wales in September in a production by Mewn Cymeriad. He lives in Aberaeron with his wife Siân.



# Grug Muse

## Dramodydd / Playwright

Mae Grug yn fardd ac awdur sy'n dod o Ddyffryn Nantlle yn wreiddiol ond yn byw ym Mro Ddyfi erbyn hyn. Daeth ei chyfrol *merch y llyn* yn fuddugol yng ngwobr Llyfr y Flwyddyn Barddoniaeth yn 2022, a chyhoeddwyd addasiad Sbaeneg o'r gwaith yn yr Ariannin gan y teitl Perdida yn 2025. Mae ei chyfrol ddiweddaraf, *Croesi – cyfandir ar ddwy olwyn* yn gyfrol o len taith a gyhoeddwyd gan y Lolfa yn 2025. Mae'n rhan o dîm Cyhoeddiadau'r Stamp, ac yn aelod o Gasgleb gelf Heysahorn. Mae wedi gweithio yn rhyngwladol gan deithio i'r Ariannin, Gwlad Groeg, Serbia, Croatia, Latfia, yr Ynysoedd Ffaro a Gwlad Belg i gymryd rhan mewn gwyliau a phreswyliadau.

Grug is a poet and writer who originally comes from Dyffryn Nantlle but now lives in Bro Ddyfi. Her book *merch y llyn* won the Poetry Wales Book of the Year award in 2022, and a Spanish adaptation of the work was published in Argentina under the title Perdida in 2025. Her most recent book, *Croesi – cyfandir ar ddwy olwyn* is a book of poetry published by the Lolfa in 2025. Grug is a member of Cyhoeddiadau'r Stamp team, and a member of the Heysahorn Art Collection. She has worked internationally traveling to Argentina, Greece, Serbia, Croatia, Latvia, the Faroe Islands and Belgium to take part in festivals and residencies.




## Theatr Cymru yw'r cwmni theatr cenedlaethol iaith Gymraeg.

Mae Theatr Cymru (gynt yn Theatr Genedlaethol Cymru) yn creu profiadau theatrig beiddgar sy'n diddanu ac ysbrydoli pobl Cymru.

Rydym yn creu man i ddod ynghyd, i gysylltu'r adnabyddus a'r annisgwyl, Cymreictod a'r byd, i drafod yn ddwys ac i godi'r galon. Rydym hefyd yn creu cyfleoedd sy'n fodd i feithrin ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o artistiaid theatr Cymraeg ynghyd â chyfleoedd i bobl ledled Cymru brofi effaith drawsnewidiol creadigrwydd yn eu bywydau.

## Theatr Cymru is the Welsh-language national theatre.

Theatr Cymru create bold theatre experiences to entertain and inspire the people of Wales.

We create a place of connection for the well-known and the unexpected, for Welshness and the world, for the big conversations and the joyful moments. We also facilitate opportunities that are a means of nurturing and inspiring the next generation of Welsh theatre artists, together with opportunities for people in all parts of Wales to experience the transformative effect of creativity in their lives.





Sefydlwyd y cwmni ym mis Mawrth 2003, trwy nawdd gan Gyngor Celfyddydau Cymru. O'r cychwyn cyntaf roedd un peth yn glir – mai nod y cwmni fyddai teithio, a mynd â theatr Gymraeg ei hiaith i galon cymunedau ledled Cymru, gan ddathlu ein hunaniaeth a'n hiaith yn ei holl amrywiaeth.

Dros yr 20 mlynedd diwethaf, mae'r cwmni wedi cofleidio clasuron y theatr Gymraeg ac ysgrifennu newydd, ac wedi cyflwyno'r cyfan ar lwyfannau traddodiadol ac mewn lleoliadau annisgwyl. Yn ogystal â hyn mae'r cwmni'n rhedeg prosiectau creadigol, llesiant a cyfranogol ar draws y wlad. Mae'r cwmni bellach yn theatr deithiol uchel ei chlod sy'n rhoi Cymru a'i phobl ar y map, sy'n agored ac yn groesawgar i bawb.

Mae Theatr Cymru yn perthyn i chi.

The company was founded in March 2003, with a grant from the Arts Council of Wales. From the very beginning, one thing was clear – that it would be a touring company, taking Welsh-language theatre into the heart of communities up and down the country. The company would celebrate our identities and our language in all its diversity.

Over the last two decades, the company has embraced the classics of Welsh-language theatre as well as new and experimental work, presenting in traditional theatres and in unexpected locations. The company also facilitates creative, wellbeing and participatory projects across the country. Theatr Cymru is now an acclaimed touring theatre, placing Wales and its people on the map, and welcoming to all.

Theatr Cymru belongs to you.

---

## Enillydd Gwobr UK Theatre 2024 am Ragoriaeth Mewn Teithio

## Enwebwyd fel Cynhyrchydd y Flwyddyn – Gwobrau'r Stage 2024

## 2024 UK Theatre Award Winner for Excellence in Touring

## Nominated as Producer of the Year – The Stage Awards 2024

---




## Theatr i Gymru

Fel elusen gofrestredig, mae Theatr Cymru yn ddibynnol ar nawdd a rhoddion gan ein cymunedau, ac ni fyddai'n bosib i ni barhau i ddiddanu ein cynulleidfaoedd heb gefnogaeth ariannol gan ystod eang o ffynonellau.

### Hoffech chi ein cefnogi?

I gyfrannu **£5**, tecstiwch **THEATRCYMRU 5** i **70085**. Cost y neges fydd £5 yn ogystal â phris un tecst arferol.

I gyfrannu **£10**, tecstiwch **THEATRCYMRU 10** i **70085**. Cost y neges fydd £10 yn ogystal â phris un tecst arferol.

Mae modd cyfrannu ar-lein hefyd ar ein gwefan **theatr.cymru**

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth barhaus.

## Theatre for Wales

As a registered charity, Theatr Cymru depends on sponsorship and donations from our communities, and it wouldn't be possible for us to continue to entertain our audiences without financial support from a wide variety of sources.

### Would you like to support us?

To donate **£5**, text **THEATRCYMRU 5** to **70085**. Texts cost £5 plus one standard rate message.

To donate **£10**, text **THEATRCYMRU 10** to 70085. Texts cost £10 plus one standard rate message.

You can also donate online at **theatr.cymru**

Diolch yn fawr for your continued support.

Cwmni Theatr yr Urdd, mewn cydweithrediad â Theatr Cymru, yn cyflwyno...

# CALON

## Sioe gerdd newydd sy'n dathlu cerddoriaeth eiconig Caryl Parry Jones

**– fel nad ydych chi erioed wedi'i gweld o'r blaen!**

**Mae Calon yn taflu goleuni newydd ar glasuron Caryl gyda chynhyrchiad cyfoes, gweledol a bywiog.**

Gyda chast a chriw creadigol o 100 o bobl ifanc.





**PEIDIWCH COLLI UN O UCHAFBWYNTIAU THEATRIG YR HAF!**

**Tocynnau ar werth nawr:**

**www.wmc.org.uk/calon**

**Tocynnau £5 arbennig i bobl ifanc 25 ac iau!**

defnyddiwch y cod

**AELODAU5**

**Theatr Donald Gordon, Canolfan Mileniwm Cymru, Caerdydd**

Nos Iau 27 Awst 2026, 7.30pm
Nos Wener 28 Awst 2026, 7.30pm (BSL)
Dydd Sadwrn 29 Awst 2026, 2pm (BSL)
Nos Sadwrn 29 Awst 2026, 7.30pm

Canllaw oed: 11+.

Rhaid i rai dan 16 oed fod yng nghwmni oedolyn

Cwmni Theatr yr Urdd
THEATR CYMRU
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
Urdd

THEATR CYMRU

# Te Angladd

GAN / BY
Gruffudd Owen



DILYNIANT I'R DDRAMA LWYDDIANNUS *PARTI PRIODAS*

SEQUEL TO THE HIT PLAY *PARTI PRIODAS*

## Ar daith / On tour

**Galeri, Caernarfon**
Rhagddangosiadau / Previews
23.02.27 CC
24 – 26.02.27 CC

**Theatr Clwyd, Yr Wyddgrug / Mold**
01.03.27 CC

**Theatr y Sherman, Caerdydd**
**Sherman Theatre, Cardiff**
03 – 05.03.27 CC

**Theatr y Garth,**
**Pentre'r Eglwys / Church Village**
08.03.27 CC

**Clwb Rygbi Pontarddulais**
**Pontardulais Rugby Club**
09.03.27 CC

**Ffwrnes, Llanelli**
10.03.27 CC

**Yr Egin, Caerfyrddin / Carmarthen**
11.03.27 CC

**Theatr Felinfach, Dyffryn Aeron**
12.03.27 CC

**Clwb Rygbi Dolgellau**
15.03.27 CC

**Clwb Rygbi Nant Conwy, Llanrwst**
16.03.27 CC

**Theatr Fach Llangefni**
17.03.27 CC

**Pontio, Bangor**
18.03.27 CC

**Neuadd Dwyfor, Pwllheli**
19.03.27 CC

Eisiau mwy o wybodaeth a thocynnau?
Want more information and tickets?

**www.theatr.cymru**

Llun / Image: Mefus Photography

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Rhif cofrestru cwmni / Company registration number: 4784488

THEATR.CYMRU